

# ADOLYGIAD PUM MLYNEDD Y PWYLLGORAU YMGYNGHOROL IECHYD PROFFESIYNOL

## Diben

1. Rhoi cyfle i'r aelodau wneud sylwadau am y 7 adroddiad adolygiad drafft.

## Crynodeb

2. Mae 7 adroddiad adolygiad drafft ynghlwm â'r papur hwn, un ar bob un o'r cyrff a ganlyn:

Pwyllgor Deintyddol Cymru Pwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru Pwyllgor Meddygol Cymru  
Pwyllgor Optometreg Cymru

Pwyllgor Fferyllol Cymru Pwyllgor Ymgynghorol Gwyddonol Cymru Cyd-fforwm Proffesiynol Iechyd  
a Lles

## Amserlen

3. Os yw aelodau yn dymuno cyflwyno unrhyw sylwadau i mi cyn i'r adroddiadau hyn gael eu llunio ar eu ffurf derfynol, a fyddech gystal â'u cyflwyno i mi erbyn diwedd mis Mai. Yn dilyn unrhyw adolygiadau ar ôl ystyried unrhyw sylwadau o'r fath, bydd yr adroddiadau terfynol yn cael eu rhyddhau ar y rhyngrwyd.

## Cefndir

4. Roedd Datganiad Cabinet ysgrifenedig Edwina Hart ar 21 Rhagfyr 2000, ynghylch y drefn ar gyfer adolygu Cyrff Cyhoeddus **anweithredol** a noddir gan y Cynulliad a chyrrff tebyg, yn cadarnhau ymrwymiad y Cabinet i barhau â'r drefn adolygu, mewn modd mwy agored nag yn y dyddiau cyn y Cynulliad. Lluniwyd yr adroddiadau adolygiad drafft sydd ynghlwm gan un o swyddogion y Cynulliad, Martin Rolph, yn dilyn ymgynghori â chadeirydd pob Pwyllgor, nifer o fudd-gyfrannwyr eraill allanol, uwch swyddogion proffesiynol perthnasol yn y Cynulliad, a mynychu un o gyfarfodydd pob un o'r Pwyllgorau o dan sylw.

5. Hefyd ar 21 Rhagfyr 2000, cyhoeddwyd Datganiad Cabinet ysgrifenedg ar y cyd gennyf i ac Edwina Hart yn cyhoeddi'r 7 adolygiad pum mlynedd yma.

## Ystyriaethau

6. Tra bo pob un o'r 7 adroddiad adolygiad yn ymdrin ag amgylchiadau unigryw'r corff o dan sylw, mae

nifer o themâu sy'n gyffredin i bob un neu'r rhelyw, yn ymddangos:

- (a) Nid yw'r cyrff hyn o dan reolaeth y Cynulliad i'r un graddau a llawer o bwyllgorau ymgynghorol eraill y Cynulliad. Nid yw'r Cynulliad yn eu penodi, nac yn penderfynu ar eu cyfansoddiad. Mae'r berthynas ffurfiol wedi ei seilio ar ddeddfwriaeth sylfaenol yn dechrau gyda Deddf GIG 1973, fel y'i diwygiwyd, sy'n gosod dyletswydd cyfreithiol ar y Cynulliad i "gydnabod" y pwyllgorau hyn fel ffynonellau cyngor iechyd proffesiynol.
- (b) Ymddengys bod mwy o sgôp i'r Cynulliad a'r GIG gael mwy o fudd o weithgareddau'r Pwyllgorau, heb ddyrannu adnoddau ychwanegol sylweddol na gwneud galwadau enfawr ar amser aelodau'r Pwyllgorau.
- (c) Mae ar y Cynulliad angen y math o gyngor a gwybodaeth y gall y Pwyllgorau ei gynhyrchu. Maent yn dod ag amrywiaeth o arbenigedd iechyd proffesiynol wedi ei seilio ar anghenion ac amgylchiadau pobl Cymru i'r amlwg yn y trafodaethau hyn, gan ddarparu'r ffynhonnell fwyaf credadwy o'r math yma o gyngor proffesiynol y gellir ei ddychmygu. Maent yn meddu ar y potensial i wneud cyfraniadau pwysig i ddatblygu "Gwella Iechyd yng Nghymru". Mae bron pob un o aelodau'r Pwyllgorau â swyddi yn rheng flaen darpariaeth gofal iechyd y GIG – er enghraifft, fel nyrsys cymuned, llawfeddygon ymgynghorol, deintyddion, optometryddion cymuned, radiograffwyr, fferyllwyr cymunedol, i nodi un enghraifft o bob un o'r pwyllgorau sy'n canolbwyntio ar broffesiwn penodol.
- (ch) Mae'r pwyllgorau yn cynrychioli gwerth da iawn am arian. Y prif gostau uniongyrchol i'r Cynulliad yw'r costau teithio a chynhaliaeth a delir i'r aelodau am fynychu pwyllgorau, a chost amser swyddogion y Cynulliad sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwaith y Pwyllgorau. Cyfanswm cost uniongyrchol blyneddol y 7 Pwyllgor i'r Cynulliad Cenedlaethol yw tua £200,000. Mae cost enwol staff y Cynulliad, a fyddai ar gael i gyflawni dyletswyddau eraill pe na bai'r Pwyllgorau'n bodoli, yn cyfri am ychydig dros hanner hyn.
- (d) Yn ystod cyfnod yr adolygiadau, daeth i'r amlwg nad oedd un grwp, y Proffesiynau sy'n gysylltiedig â Meddygaeth, yn cael ei gynrychioli'n ddigonol gan y strwythur ymgynghorol. Mae tua 3,000 o staff Proffesiynau sy'n gysylltiedig â Meddygaeth yng Nghymru, mewn proffesiynau therapiwtig fel ffysiotherapi a therapi galwedigaethol. Mae'n bosibl y bydd aelodau'r Pwyllgor yn cofio i'r pwyllgor a sefydlwyd gan y proffesiynau hyn eu hunain (Pwyllgor Cymru Gyfan ar gyfer Proffesiynau Iechyd) roi cyflwyniad i ni yn yr hydref 2000. Nid oedd cylch gorchwyl yr adolygiadau yn caniatáu ymdrin â sefyllfa'r proffesiynau yn gysylltiedig â meddygaeth yn llawn fel mater penodol, ond rwy'n falch fod y mater hwn wedi ei gydnabod yn glir yn ystod y broses adolygu (yn ystod adolygiad y Cyd-Fforwm Proffesiynol), a gellir ymdrin â hyn fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun GIG.

## **Cydymffurfio**

7. Mae pwerau'r Cynulliad mewn perthynas â chynnal yr adolygiadau yn adrannau 28 a 40, ac Atodlen 4, Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Nid yw'r papur hwn yn codi unrhyw fater yn ymwneud â

chysondeb na phriodoldeb.

## **Goblygiadau Ariannol**

8. Ni fyddai gweithredu bron y cyfan o'r argymhellion yn yr adroddiadau drafft yn cynnwys unrhyw gynnydd mewn gwariant, gyda dau eithriad – cynyddu pa mor aml mae'r Pwyllgor Optometreg yn cyfarfod o 50% (hwn yw'r pwyllgor sy'n cyfarfod lleiaf aml ar hyn o bryd) a chydabod yn ffurfiol, mewn rhyw ffurf, y pwyllgor a ffurfiwyd i gynghori'r Cynulliad ac eraill ynghylch materion proffesiynol yn ymwneud ag anghenion pobl Cymru am y gwasanaethau a ddarperir gan Broffesiynau sy'n gysylltiedig â Meddygaeth. Byddai cost gweithredu'r ddau beth yma tua £10,000 mewn blwyddyn lawn. Nid yw'r dyraniad cyllideb presennol ar gyfer Pwyllgorau Ymgynghorol Iechyd Statudol yn ddigonol i gwrdd â'r gofyniad ychwanegol. Byddai'n rhaid gwneud cais am adnoddau ychwanegol, a byddai methu â sicrhau arian ychwanegol yn golygu na fyddai'n bosibl gweithredu'r ddau argymhelliad a ddisgrifiwyd ar ddechrau'r paragraff hwn.

## **Themâu Trawsbynciol**

9. Roedd cylch gorchwyl yr adolygiadau yn cynnwys cyfeiriad at dair prif thema'r Cynulliad, sef cydraddoldeb, cynhwysiant cymdeithasol a chynnaladwyedd. Nodwyd materion cydraddoldeb (o ran aelodaeth) ymhob un o'r adroddiadau, ac adlewyrchir y themâu cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol yn y materion mae'r holl Bwyllgorau yn ymdrin â hwy, fel y cofnoda pob adroddiad.

## **Gweithred**

10. Estynnir gwahoddiad i aelodau'r pwyllgor gyflwyno unrhyw sylwadau ar yr atodiadau erbyn 18 Mehefin.

## **JANE HUTT**

Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## **Pwynt Cyswllt**

11. Is-adran Iechyd y Cyhoedd

-----7d110c383e10202 Content-Disposition: form-data; name="add\_id\_1"